**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

—

**Public Accounts and Public Administration Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCCGG@Senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCCGG
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAPA@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPAPA
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

14 Gorffennaf 2025

Annwyl Lywydd,

Craffu ar fylchau a nodwyd gan Bwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad COVID-19 Cymru a Modiwl 2 o Ymchwiliad Covid-19 y DU

Parthed eich llythyr dyddiedig 6 Mehefin 2025 a'n trafodaeth gychwynnol ar y mater hwn yn ein cyfarfod ar 18 Mehefin 2025, fe wnaethom drafod y mater eto yn ein cyfarfod ar 10 Gorffennaf 2025.

Er bod gennym y pryderon o hyd a nodwyd yn ein llythyr dyddiedig 19 Mehefin 2025 atoch ynghylch ymgymryd â'r gwaith hwn, rydym bellach wedi dod i gonsensws y byddwn yn bwrw ymlaen â'r mater hwn.

I ailadrodd rhai o'r pryderon hynny, mae'n debygol mai dim ond materion sy'n ymwneud ag adroddiad Modiwl 1 o Ymchwiliad Covid y DU y byddwn yn gallu eu trafod, o ystyried nad yw adroddiad Modiwl 2 wedi'i gyhoeddi eto. Ar ben hynny, o ystyried nad oes gennym lawer o amser a chapasiti, bydd hyn yn cyfyngu ar y gwaith y gallwn ei wneud, ac rydym yn rhagweld uchafswm o bedair sesiwn dystiolaeth yn ystod tymor yr hydref. Os caiff yr adroddiad Modiwl 2 ei gyhoeddi mewn pryd, rydym yn rhagweld y byddwn yn cynnal un sesiwn ar hyn yn 2026 cyn diddymiad y Senedd, i gyfeirio ati yn ein hadroddiad gwaddol.

Rydym hefyd wedi ysgrifennu at y Prif Weinidog yn gofyn am ymrwymiad y byddai'n dod i sesiwn graffu, ac er na chafwyd ymrwymiad yn ei hymateb, ein disgwyliad yw y bydd yn derbyn os caiff ei gwahodd i roi tystiolaeth i ni.

Byddwn yn cwrdd nesaf ar 25 Medi a bydd cyfle i ni ystyried lled a chwmpas ein gwaith ar y mater hwn yn fanylach.

Yn gywir,

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus